CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 18ed MEDI 2018

YN NEUADD GOFFA BODWROG

PRESENNOL:
Cyng H G Owen, R R Roberts, J Evans, E D Owen, R M Roberts, E W Roberts, J E Lewis, E Williams ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU:
Cyng D T Roberts.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 17eg GORFFENNAF 2018 YN GYWIR Cynnig Cyng R M Roberts, eilio Cyng J Evans.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Cae Chwarae. Mae gan y Cyngor Ysiwrant Atebolrwydd Cyhoeddus. Cysylltu a Gaynor Jones i edrych a oes Ysiwrant ar yr Offerau Chwarae.

Ganolfan Bodffordd. Cafwyd amcangyfrif o bris am y Ganolfan, Ysgol ar Cae Chwarae gan y Cyngor Sir ond bydd rhaid cael pris annibynnol. Pasiodd y Cyngor i gael pris terfynol cyn symud ymlaen a beth i`w wneud.

Mae y Cyngor yn awyddus i weld beth fydd enw yr Ysgol Newydd. Ac yn hoffi cael cyfle i ddewis yr enw.
Oherwydd prysurdeb y lon o Bodffordd i Corn Hir, Llangefni efallai cael llwybr un ochr i gerdded hefyd golau. Lon Gwaith Dwr angen sylw mae yn anodd iawn gweld at Pwros. Cysylltu a`r Cyngor Sir ynghylch a`r uchod. Cynnig E W Roberts, eilio Cyng E D Owen.

Model Reolau Sefydlog 2018 (Cymru) NALC. Y Cyngor i`w mabwysiadu. Cynnig Cyng E Williams, eilio Cyng R R Roberts.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. 14C42N. Cais llawn ar gyfer gosod paneli solar ar ben to yn :-
   Gwaith Dwr Cefni, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng R M Roberts.

2. 14C202A. Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn:-
   Mathafarn, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng E Williams, eilio Cyng E W Roberts.

3. 14C246B. Cais i bennu a oes angen caniatad blaenorol ar gyfer codi sied amaethyddol ar dir yn:-
   Tyn Llwyn, Bodffordd.
   Tynnu sylw at Rhif 10. A fedr y safle ei weld o`r lon cyhoeddus, llwybr cyhoeddus ac ymlaen. (Wedi ymateb na, dylai fod yn ydi)
   Cynnig Cyng E D Owen, eilio Cyng R R Roberts.

PENDERFYNIADAU:

4. 14C120H/ENF. Erw Faen, Tynlon. Gwrthodwyd.
   Oherwydd ei raddfa, safle dyrchafedig, dyluniad ac ymddangosiad, nid yw`r adeilad yn cydymffurfio a Pholisi PCYFF3 o`r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd a`r canllawiau sydd wedi`u cynnwys o fewn Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9) a`r Canllawiau Cynllunio Atodol - Canllawiau Dylunio ar gyfer yr Amgylched Gwledig a Threfol.

5. 14C245B/VAR. Gogledd Fferm Bodwrog, Tynlon.
   Caniatau (mannau pasio a cofnod ffotograffic) Gwrthod (Dyluniad arfaethedig)

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

6. BUSNES Y CYNGOR.
   Gwasanaeth Sul y Cadeirydd (Cyng Dylan W Rees) 14eg Hydref 2018. Neuadd y Sir, Llangefni. Yn anffodus neb yn medru mynychu.

7. CADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU.
   Cyfryngau Cymdeithiasol - Canllaw i Gynghorwyr.
   Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi`n hysbysu am ganllaw newydd sydd wedi ei baratoi ar gyfryngau cymdeithiasol i aelodau. Mae copi o`r canllaw yn ymddangos ar wefan CLICL drwy`r ddolen yma.
   https://www.wlga.cymru/social-media-and-online-abuse

GOHEBIAETH (ARALL)

8. Y Fynwent Gymunedol. Bodffordd.
   Cafwyd llythyr gan T V Hughes. Cyfarwyddwr William Hughes (Peirianneg Sifil) Cyf. Wedi Sylwi fod yr ymgymerwr wedi defnyddio JCB ar olwynion yn pwyso tua 6tunnel i agor a malu y graig yn y bedd. Oherwydd y symud yn ol a blaen fe farciwyd a chywasgwyd y ddaear yn helaeth, ond yn deg oherwydd y tywydd fe dacluswyd i safon eithaf derbyniol.
   Consyrn idi. Pan sefydlwyd y fynwent newydd bu ail hadu a thrin yr holl wyneb i safon uchel. Os bydd Ymgymerwyr yn defnyddio peiriant trwm eto yn enwedig yn ystod misoedd gwlyb y gaeaf, byd y gwaith a wnaethpwyd flynyddoedd yn ol i gyd yn ofer a bydd dirywiad yn edrychiad y fynwent.
   Awgrymiad. Fod rheol newydd yn cael ei hystyried yn cyfyngu maint unrhyw beiriant i 3 tunnell o bwysau ar peiriant fod ar draciau rwber fyddai yn sicrhau dosraniad o`i phwysa (pwysau dosraniad) dros ardal mwy llydan sydd ddim yn bosib hefo peiriant ar olwynion.
   Y Cyngor pasio rheol newydd yn cyfyngu maint unrhyw beiriant i 3 tunnell o bwysau ar peiriant fod ar draciau rwber. Cynnig Cyng E Williams, eilio Cyng R M Roberts.

9. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn.

10. Cyngor ar Bopeth Ynys Mon. Credyd Cynhwysol - y Gair Cyntaf.
    Siambr y Cyngor Tref, Llangefni. 18ed Medi 2018. 9.30 - hanner dydd. Derbyn.

11. Valley Wings. Cylchgrawn. Derbyn.

12. Grid Cenedlaethol. Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru: Cynlluniau Terfynol. Wedi`u cyflwyno i`r Arolygiaeth Cynllunio. Derbyn y wybodaeth, ddim yn hapus.

13. Grwp Cynefin. Adroddiad Blynyddol 2017/18. Derbyn.

14. Cyfarfod Cyhoeddus Atal y Peilonau. "Y Cam Nesaf". Canolfan Gaerwen 28ain Medi 2018 am 7.30pm. Derbyn.

RHODDION.
15. Marie Curie. Gwasanaeth Nyrsio. Gadael hyd Mawrth 2019.

PLWYFOL.
16. Y Fynwent Gymunedol. Y coed i`w trimio ai cludo am £100.00. Derbyn Cynnig Cyng J E Lewis, eilo Cyng J Evans.

17. Oherwydd cyflymder erchyll tramwy o Llangefni i Bodffordd, gofyn i Adran Priffyrdda fydd yn bosib symud yr arwyddbost 30mya tuag at Penybryn, Bodffordd. Unfrydol.

18. Mae cwynion ym mhentref Llynfaes ar Cylch o`r Post Brenhinol yn dosbarthu yn hwyr yn y prynhawn (weithiau 4.30) Y Clerc i anfon gair i`r Swyddfa Didoli yn Llangefni am eglurhad. Cynnig Cyng E W Roberts, eilio Cyng R R Roberts.

19. Miss Lowri Owen o Llynfaes wedi dychryn pan ddaeth 2 lorri Roland Young i`w chyfarfod ar y B5109, y gyntaf dros y lein wen a`r llall yn ganol y lon. Anfonodd e bost i Roland Young ond ni chafodd lawer o gydymdeimlad. Y Clerc i anfon copi o`r E Bost i`r Cyngor Sir.

20. Ysgrifennu i`r Cyngor Sir ynghylch a`r Bws Mini sydd yn cael ei scrapio dros y ffordd i Ty Twyrch, Bodffordd. Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng R M Roberts.

21. Mae gweld yr Hen Bost ym Modffordd yn ddolur i`r llygaid hefyd yr hen geir sydd ty allan i`r garej yn cael ei trin. Gofyn i`r Cyngor Sir edrych i fewn a oes posib gwneu rhywbeth. Cynnig Cyng E W Roberts, eilio Cyng E Williams.

TALIADAU:
23. Clerc £220.83. Treth Incwm 2 £165.60. Costau`r Cyngor (3 mis) £176.80.

Derbyniwyd y balans a talwyd y dyledion i gyd Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng R M Roberts.